

Crynodeb

Cyd-gynhyrchu mewn ymchwil anabledd: datblygu strategaethau ar gyfer y dyfodol

Am y Rhaglen DRILL

Roedd DRILL (Disability Research on Independent Living and Learning) yn rhaglen arloesol 5 mlynedd, ledled y DU dan arweiniad pobl anabl, ar gyfer pobl anabl ac yn cael ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Wedi'i lansio yn 2015, roedd y rhaglen yn cael ei rheoli gan bartneriaeth o Disability Action Northern Ireland, Disability Rights UK, Anabledd Cymru ac Inclusion Scotland.

Nod y rhaglen oedd datblygu gwell tystiolaeth am ddulliau sy'n galluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol. Gellir defnyddio canfyddiadau'r prosiectau a gyllidwyd i lywio darpariaeth yn y dyfodol ar draws ystod eang o feysydd polisi, a rhoi mwy o lais i bobl anabl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Mae hwn yn un o gyfres o grynodedau o'r prosiectau a gefnogwyd gan DRILL. Mae adroddiadau terfynol, pecynnau cymorth a chrynodebau o'r holl brosiectau ar gael ar wefan DRILL yn www.drilluk.org.uk.

Trosolwg o'r prosiect Cyd-gynhyrchu mewn ymchwil

Roedd y prosiect hwn yn archwilio'r manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â gweithio gydag ymchwilwyr cymheiriaid.

Mae'n adeiladu ar ganfyddiadau prosiectau eraill a ariannwyd gan DRILL, gan ddadansoddi'r rhwystrau a'r atebion posibl i

Dull

Mae'r prosiect Cyd-gynhyrchu mewn ymchwil yn defnyddio dulliau ymchwil ansoddol. Cynhaliodd grwpiau ffocws a chyfweliadau unigol â chwech o'r prosiectau DRILL eraill, gan gynnwys o leiaf un o bob gwlad.

Cynhaliwyd sesiwn Cymuned o Ymchwilio, sy'n ddull 10 cam o greu cwestiynau a hwyluso trafodaeth mewn ymateb i gyfres o gwestiynau.

Canfyddiadau

Yn y prosiect hwn, diffinnir ymchwilwyr cymheiriaid fel pobl anabl sydd â phrofiad blaenorol o waith ymchwil a phobl anabl nad oes ganddynt brofiad blaenorol o waith ymchwil, sydd wedi cael eu recriwtio a'u hyfforddi'n benodol i gyd-gynhyrchu prosiectau ymchwil a ariennir gan DRILL.

Yn bennaf, roedd ymchwilwyr cymheiriaid yn ymwneud â phob agwedd ar y broses ymchwil. Roedd cynnwys ymchwilwyr cymheiriaid yn ystod y cais am gyllid yn arbennig o gyfyngedig gan nad oedd gan y timau yn aml yr arian i wneud hyn.

Gall y diffyg ymgysylltu â phobl anabl ar ddechrau'r prosiect olygu bod ymchwilwyr cymheiriaid yn teimlo nad yw eu prosiect ymchwil wedi'i gyd-gynhyrchu mewn gwirionedd.

Mae rhai ymchwilwyr cymheiriaid yn nodi eu bod, o ganlyniad i'w gwaith ymchwil, wedi datblygu dealltwriaeth well o'u cyflyrau iechyd eu hunain. Roedden nhw hefyd yn meithrin mwy o ymwybyddiaeth o fywydau pobl eraill sydd â'r un cyflwr.

Cafodd yr ymadrodd 'ymchwilydd cymheiriaid' adolygiadau cymysg, mae'n hawdd ei ddeall i gyrff ariannu, pobl anabl a llunwyr polisïau. Fodd bynnag, gallai orfodi'r hierarchaethau anghyfartal presennol rhwng ymchwilwyr academiaidd a'r rhai â phrofiad byw.

Mae ymchwilwyr cymheiriaid yn chwarae rhan bwysig mewn recriwtio, gwaith maes a lledaenu ymchwil mewn astudiaethau anabled.

Mae cymryd rhan mewn ymchwil wedi'i chyd-gynhyrchu yn gwella lles ymchwilwyr cymheiriaid, yn codi lefelau hyder, yn ymestyn rhwydweithiau ac yn ehangu nodau'r dyfodol.

Canfyddiadau (parhad)

Mae trefnu taliadau i ymchwilyr cymheiriaid sy'n cael budd-daliadau lles yn rhwystr i gyd-gynhyrchu ymchwil llwyddiannus.

Roedd ymchwilyr cymheiriaid yn aml yn helpu i gynhyrchu taflenni gwybodaeth mewn Saesneg clir, a oedd yn cynyddu'r recriwtio ar gyfer astudiaethau ymchwil drwy wneud y dogfennau'n llawer mwy hygyrch.

Argymhellion

Fe wnaeth y prosiect Cyd-gynhyrchu mewn Ymchwil amlinellu llawer o argymhellion, ac mae rhai ohonynt wedi'u rhestru yma. Mae'r holl argymhellion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad llawn, ac mae dolen iddo isod.

- Rhaid diffinio'r term 'cyd-gynhyrchu' fel bod pawb yn deall y ddealltwriaeth gyffredin o rôl ymchwilyr cymheiriaid
- Rhaid cael mynediad cynaliadwy i gyllid a chymorth ymarferol er mwyn parhau i feithrin y gallu i arwain ar brosiectau ymchwil i'r anabl
- Byddai arian hadau corn, lle mae arian ar gael ar ddechrau prosiect, yn galluogi ymchwilyr cymheiriaid i gymryd rhan yn y cais ar gyfer cyfnod cyllido prosiect
- Dylai cyrff ariannu wneud cyd-gynhyrchu yn ofyniad hanfodol ar gyfer pob prosiect ymchwil anabled
- Rhaid creu diwylliant lle mae gan ymchwilyr cymheiriaid rolau cyfartal o fewn prosiectau ymchwil, a lle nad yw eu cyfranogiad yn symbolaidd,
- Byddai adolygiad o bolisiau ac arferion, yn enwedig y rheini mewn prifysgolion, yn sicrhau y gellir bodloni gofynion, ac y gallai pobl anabl gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil.

Adroddiad terfynol

Cyd-gynhyrchu mewn ymchwil anabledd: datblygu strategaethau ar gyfer y dyfodol


Cliciwch ar enw'r adroddiad i ddarllen yr adroddiad llawn.

Partneriaid y prosiect

Anabledd Cymru



Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru



Prifysgol Abertawe



HOLI

